Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Llwybr Newydd
# Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru

**Drafft Ymgynghori – Hawdd ei Ddeall**



# Cynnwys


Beth yw strategaeth drafnidiaeth? 5

Pam rydyn ni'n gofyn am eich help? 6

Beth yw ystyr trafnidiaeth? 7

Gwybodaeth am drafnidiaeth yng Nghymru 9

Pam rydyn ni'n gofyn am eich help? 11

Beth mae'r strategaeth newydd yn ei ddweud? 15

Sut y gallwch chi ein helpu ni? 20



# Canllaw hawdd ei ddeall ar y ddogfen ymgynghori



Dyma gyfle i rannu eich barn â Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.



# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei deall.

Efallai y bydd angen i chi gael help i'w darllen a'i deall. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.

Ystyr 'ni' yw Llywodraeth Cymru.






# Beth yw strategaeth drafnidiaeth?

Rydyn ni am wella trafnidiaeth yng Nghymru. Rydyn ni'n ysgrifennu strategaeth drafnidiaeth i'n helpu i wneud hynny.

Adroddiad am ddyfodol trafnidiaeth yng Nghymru yw strategaeth drafnidiaeth.

Bydd yr adroddiad yn dweud sut y byddwn ni'n gwella trafnidiaeth yng Nghymru.

Does dim digon o arian gennym ni i wneud popeth.

Felly bydd strategaeth yn ein helpu i benderfynu beth sydd fwyaf pwysig.



# Pam rydyn ni'n gofyn am eich help?

Mae gennym ni rai syniadau am y pethau y byddwn ni'n eu rhoi yn y strategaeth yn barod.

Ond mae angen inni glywed eich barn chi am y syniadau hynny.

Ydyn nhw'n syniadau da neu'n syniadau gwael? Oes gennych chi syniadau eraill?






# Beth yw ystyr trafnidiaeth?


Trafnidiaeth sy'n mynd â phobl o un lle i'r llall.

Mae hefyd yn mynd â phethau o un lle i'r llall. Pethau bach fel parseli neu fwyd, neu bethau mawr fel peiriannau.



**Mae trafnidiaeth yn cynnwys:**

- Cerdded
- Beicio
- Bysiau
- Trenau
- Ceir a ffyrdd
- Tacsis
- Awyrennau a meysydd awyr
- Cludiant cymunedol fel bysiau lleol
- Lorïau a faniau
- Llongau a phorthladdoedd



# Gwybodaeth am drafnidiaeth yng Nghymru

Rydyn ni'n gwneud llawer o bethau i helpu trafnidiaeth yng Nghymru.

Rydyn ni'n trwsio'r ffyrdd i'w cadw nhw'n ddiogel. Rydyn ni hefyd yn gwella ffyrdd, er enghraifft drwy ychwanegu lonydd beicio fel y gall mwy o bobl ddefnyddio eu beiciau'n ddiogel.

Rydyn ni'n ariannu gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau lleol a gwasanaethau pellter hir.

Rydyn ni'n helpu llawer o bobl yng Nghymru i deithio ar y bysiau am ddim. Mae hyn yn cynnwys pobl anabl a'r bobl sy'n eu helpu.

Rydyn ni hefyd yn ariannu disgowntiau i bobl ifanc.



Rydyn ni wedi creu sefydliad newydd o'r enw 'Trafnidiaeth Cymru'. Mae'n ein helpu ni i ddarparu trafnidiaeth yng Nghymru, gan gynnwys rhai o'r gwasanaethau trenau. Mae hefyd yn adeiladu metros newydd.

System drafnidiaeth sy'n defnyddio bysiau, trenau a rheilffyrdd ysgafn i gyd gyda'i gilydd yw metro, ac mae'n rhedeg yn amlach ac i fwy o leoedd.

Rydyn ni hefyd yn ariannu pethau i wneud trafnidiaeth yn well ac yn fwy diogel. Er enghraifft, rydyn ni'n ariannu pethau sy'n gwella diogelwch y tu allan i ysgolion. Rydyn ni'n gwella ffyrdd fel eu bod nhw'n llai peryglus.

Rydyn ni'n ariannu pethau sy'n annog mwy o bobl i gerdded a beicio. Rydyn ni'n cefnogi pethau i'w gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio gorsafoedd, fel rampiau i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Rydyn ni'n ariannu mwy o wasanaethau.





# Pam fod angen strategaeth newydd?

Gwnaethon ni ysgrifennu ein strategaeth ddiwethaf yn 2008. Mae llawer wedi newid ers hynny.

Er enghraifft, mae gennym ni gyfraith newydd sy’n golygu bod rhaid i ni feddwl mwy am genedlaethau’r dyfodol. Mae hyn yn golygu bod angen i ni feddwl am yr amgylchedd a phobl yn y dyfodol, a meddwl am beth sy’n digwydd nawr hefyd.

Hefyd, mae angen inni wella rhai pethau am drafnidiaeth yng Nghymru o hyd.





# Ceir

Mae angen i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru ddefnyddio car i fynd o le i le. Yn enwedig os ydyn nhw'n byw mewn ardal wledig.

Ond mae ceir yn ddrwg i'r amgylchedd. Maen nhw'n rhyddhau nwy sy'n gwneud newid hinsawdd yn waeth.

Pan fyddwch chi'n gyrru car, bydd y teiars yn gwisgo. Mae darnau mân o'r teiars yn gallu mynd i mewn i'r aer rydyn ni'n ei anadlu. Mae hyn yn ddrwg i'n hiechyd – yn enwedig i blant.

Hefyd, mae llawer o geir yn gallu golygu mwy o dagfeydd traffig.





# Bysiau a threnau

Mae angen i lawer o bobl yng Nghymru ddefnyddio bysiau a threnau oherwydd does ganddyn nhw ddim car.

Ond, efallai eu bod nhw'n poeni am wneud hynny.

Efallai na fydd y bws yn cyrraedd ar amser.

Efallai na fydd digon o le i gadair olwyn.

Weithiau bydd bysiau a threnau yn hwyr.

Fydd bysiau a threnau ddim bob amser yn mynd i ble rydych chi am fynd, pan fyddwch chi am fynd yno.

Mae pobl yn poeni y gallen nhw ddal COVID-19 ar fws neu drên.

Efallai na fyddan nhw'n teimlo'n ddiogel yn teithio ar eu pen eu hunain. Mae llawer o leoedd yng Nghymru yn bell i ffwrdd o orsaf drenau, felly dyw pobl ddim yn gallu defnyddio'r trên.



# Cerdded a beicio

Rydyn ni am i fwy o bobl gerdded a defnyddio beic.

Mae hyn am fod cerdded a beicio yn dda i'ch iechyd. Mae hefyd yn golygu llai o geir ar y ffyrdd.

Ond mae llawer o bobl yng Nghymru yn methu cerdded neu feicio.

Neu dydyn nhw ddim yn teimlo'n ddiogel.



# Beth mae ein strategaeth newydd yn ei ddweud?

Mae'n dweud ein bod ni am gael system drafnidiaeth sy'n hygyrch ac yn gynaliadwy.

Ystyr hygyrch yw bod mwy o bobl yn gallu defnyddio'r system drafnidiaeth.

Ystyr cynaliadwy yw bod y system drafnidiaeth yn dda i Gymru hefyd.



Mae hyn yn golygu ein bod ni am i fwy o bobl gerdded a beicio a defnyddio’r bws neu’r trên. Rydyn ni am i drafnidiaeth fod yn fwy diogel.

Rydyn ni am stopio ceir, bysiau a lorïau rhag gwneud niwed i’r amgylchedd.

Rydyn ni am i bobl adael eu ceir gartref a defnyddio’r bws neu’r trên, os ydyn nhw’n gallu gwneud hynny.

Rydyn ni am i fwy o geir, bysiau, lorïau a threnau stopio llosgi tanwydd sy’n ddrwg i’r aer.

Rydyn ni am wneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gallu mynd i’r gwaith, neu weld meddyg, neu gael addysg.





# Felly sut byddwn ni’n gwneud i hyn ddigwydd?

Mae ein strategaeth newydd yn dweud:

Yn gyntaf, rydyn ni am gael mwy o wasanaethau lleol. Fydd dim angen i bobl wedyn ddefnyddio’r car bob dydd.

Yn ail, rydyn ni am gael gwasanaethau bysiau a threnau y mae pobl yn gallu eu defnyddio, yn eu defnyddio ac am eu defnyddio.

Yn drydydd, mae angen i ni ofalu am ffyrdd, traciau rheilffyrdd, llwybrau troed a llwybrau beicio fel bod pawb yn ddiogel.

Yn bedwerydd, mae angen inni ei gwneud hi’n fwy hawdd defnyddio bysiau a threnau, ac yn fwy anodd defnyddio eich car bob dydd, os oes gennych chi ddewis.





Yn olaf, mae angen inni feddwl am y dyfodol. Mae technoleg newydd ar gael, fel cerbydau trydan a mathau newydd o wasanaethau trafnidiaeth, sy'n mynd â chi i leoedd pan fyddwch chi am fynd yno. Hefyd, mae syniadau newydd ar gyfer defnyddio llai o geir, fel rhannu ceir.

Mae ein strategaeth newydd hefyd yn dweud bod angen inni feddwl am bob math gwahanol o drafnidiaeth yng Nghymru.

Felly rydyn ni wedi ysgrifennu mini-gynlluniau ar eu cyfer nhw. Fersiwn fach o'r brif strategaeth yw 'mini-gynllun'.

Mae mini-gynllun ar gyfer cerdded a beicio, ar gyfer bysiau, ar gyfer rheilffyrdd, ac un ar gyfer ffyrdd. Hefyd, mae un ar gyfer y trydydd sector (cludiant cymunedol), ar gyfer cludo nwyddau, ar gyfer porthladdoedd ac ar gyfer hedfan (trafnidiaeth awyr).

Mae'r rhain yn dweud beth rydyn ni am ei wneud, a sut.



**A fydd y strategaeth yn golygu y bydd fy bws yn cyrraedd yn cyrraedd ar amser neu yn atgyweirio’r ffordd tu allan fy nhŷ?**




Mae gormod o ffyrdd a bysiau i gynnwys pob un ohonyn nhw yn y strategaeth!

Ond bydd y strategaeth yn sôn am y bysiau, y trenau a’r ffyrdd i gyd yng Nghymru.

Bydd yn ein helpu ni i wneud penderfyniadau mawr amdanyn nhw.

Bydd hefyd yn ein helpu ni i benderfynu ble y dylen ni wario arian.



# Sut y gallwch chi ein helpu ni?

Rydyn ni am glywed eich syniadau am drafnidiaeth. Bydd hyn yn ein helpu ni i wella'r strategaeth.

Dywedwch wrthym am eich profiadau gyda thrafnidiaeth.

Ydych chi'n defnyddio bysiau neu drenau?
Ydych chi'n cerdded neu'n beicio?


Beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws ichi ddefnyddio bysiau neu drenau?

Sut rydych chi'n teimlo am y strategaeth?

Beth allai ei gwneud hi'n well?

Rydyn ni hefyd am gael gwybod os oes gennych chi syniadau i wneud pethau'n well.

Diolch






# Sut i ymateb

Gallwch chi anfon e-bost neu lythyr aton ni yn rhannu eich barn â ni. Gallwch chi ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn:
**WalesTransportStrategy2@gov.wales**

Neu anfonwch eich syniadau drwy'r post i:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Bydd angen inni gael eich syniadau erbyn 25 Ionawr.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed eich syniadau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government